# Agenda - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 7 Tachwedd 2016

Amser: 14.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddMCD@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(14.30)

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

(14.30 - 14.35) (Tudalennau 1 - 2)

**CLA(5)-10-16 - Papur 1** - Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

**SL(5)022 - Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2016**

Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad negyddol

**SL(5)023 - Rheoliadau Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Gorchmynion Ad-dalu Rhent) (Darpariaethau Atodol)**

## 3 Papur(au) i'w nodi

(14.35 - 14.40)

**Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru): Gohebiaeth gyda Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**

(Tudalennau 3 - 12)

**CLA(5)-10-16 - Papur 2** - Gohebiaeth gan y Pwyllgor i'r Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, 21 Hydref 2016
**CLA(5)-10-16 - Papur 3** - Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol i'r Pwyllgor, 1 Tachwedd 2016
**CLA(5)-10-16 - Papur 4** - Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol i'r Pwyllgor, Atodiad, 1 Tachwedd 2016

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

(14.40)

(vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod cynnwys, casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi; neu'n ymbaratoi i gael tystiolaeth gan unrhyw berson;

(ix) lle mae unrhyw fater sy'n ymwneud â busnes mewnol y Pwyllgor, neu fusnes mewnol y Cynulliad, i gael ei drafod.

## 5 Y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru): Adroddiad drafft

(14.40 - 15.10) (Tudalennau 13 - 36)

**CLA(5)-10-16 - Papur 5** - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

## 6 Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: Blaenraglen Waith

(15.10 - 15.40) (Tudalennau 37 - 68)

**CLA(5)-10-16 - Papur 6** - Briff y Gwasanaeth Ymchwil [Saesneg yn unig]
**CLA(5)-10-16 - Papur 7** - Briff y Gwasanaeth Cyfreithiol [Saesneg yn unig]
**CLA(5)-10-16 - Papur 8** - Blaenraglen Waith [Saesneg yn unig]

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dydd Llun 14 Tachwedd 2016

# Offerynnau Statudol gydag Adroddiadau Clir

Eitem 2

7 Tachwedd 2016

## SL(5)022 - Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2016

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth yng ngoleuni adrannau 30 i 34 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 o ran ceisiadau a wneir o dan y Ddeddf honno mewn cysylltiad â gorchmynion atal rhent a gorchmynion ad-dalu rhent. Mae'r Rheoliadau hefyd yn rhoi pŵer i dribiwnlys eiddo preswyl gau ceisiadau anweithredol.

Hefyd, mae'r Rheoliadau yn dirymu ac yn cydgrynhoi darpariaethau:

- Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2012;
- Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) (Diwygio) 2014;
- Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2014; a
- Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) (Diwygio) 2015.

**Deddf Wreiddiol:** Deddf Tai (Cymru) 2014

**Fe'u gwnaed ar:** Dyddiad heb ei nodi

**Fe'u gosodwyd ar**: 18 Hydref 2016

**Yn dod i rym ar:** Dyddiad heb ei nodi

# SL(5)023 - Rheoliadau Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Gorchmynion Ad-dalu Rhent) (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2016

## Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn atodol i ddarpariaethau adrannau 32 a 33 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 sy'n ymdrin â gorchmynion ad-dalu rhent. Yn benodol, maent yn ymdrin â gwneud gorchmynion ad-dalu rhent gan dribiwnlys eiddo preswyl ar gais awdurdod trwyddedu, awdurdod tai lleol neu denant annedd.

**Deddf Wreiddiol:** Deddf Tai (Cymru) 2014

**Fe'u gwnaed ar**: 17 Hydref 2016

**Fe'u gosodwyd ar**: 21Hydref 2016

**Yn dod i rym ar**: 24 Tachwedd 2016

Mark Drakeford AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

21 Hydref 2016

Annwyl Mark

**Y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru)**

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ddydd Llun 3 Hydref 2016 i gynorthwyo ein gwaith craffu ar y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru). Rwyf hefyd yn cydnabod derbyn eich llythyr, dyddiedig 18 Hydref 2016.

Yn ystod y cyfarfod, gwnaethoch ddweud bod y pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn y Bil yn cyfateb i *Ddeddf Treth Dir y Dreth Stamp 2015* a *Deddf Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (Yr Alban) 2013*. Byddem yn croesawu eglurhad pellach o sut y mae'r 33 o bwerau i wneud rheoliadau a gorchmynion yn y Bil yn cymharu â'r ddeddfwriaeth sydd ar waith yn San Steffan a Senedd yr Alban. Os yw'r pwerau'n wahanol rhwng deddfwrfeydd, byddem yn ddiolchgar o gael eglurhad o pam yr ydych wedi dewis gweithdrefn wahanol.

Gwnaethom hefyd eich holi ynghylch y defnydd o naill ai'r weithdrefn negyddol neu'r weithdrefn gadarnhaol o dan adran 76(1), yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y rhagnodir y weithdrefn gadarnhaol pan fo Gweinidogion Cymru yn dod i'r casgliad y gallai effaith y rheoliadau arwain at osod neu gynyddu atebolrwydd treth unigolyn.  Rydym yn aneglur o hyd ynghylch sut y caiff y farn hon ei ffurfio. Pa dystiolaeth neu enghreifftiau a gaiff eu defnyddio i farnu a yw'r rheoliadau yn cael yr effaith o osod neu gynyddu atebolrwydd treth?

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Yn olaf, diben adran 76(2) o'r Bil yw caniatáu diwygio deddfwriaeth sylfaenol drwy reoliadau. Mae'n egwyddor hirsefydlog fod rheoliadau sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech egluro pam mai'r bwriad yw na chaiff y weithdrefn gadarnhaol ei defnyddio ar gyfer rheoliadau a wneir o dan adran 76(2).

Byddai'n ddefnyddiol cael ymateb i'r llythyr hwn erbyn 3 Tachwedd 2016.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Simon Thomas AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

**Cadeirydd**

**Mark Drakeford AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**
**Cabinet Secretary for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

1 Tachwedd 2016

Annwyl Huw

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 21 Hydref yn gofyn am eglurhad ar nifer o bwyntiau ynghylch Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) ("y Bil"). Rwyf wedi ymdrin â'r pwyntiau a godwyd isod:

- **Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth mewn deddfwriaeth SDLT ac LBTT**

Mae Atodiad 1 i'r llythyr hwn yn cynnwys tabl yn nodi pwerau is-ddeddfwriaeth mewn deddfwriaeth SDLT ac LBTT. Mae'r pwerau hyn wedi'u nodi ar y sail mai'r un yw cwmpas y pwerau â chwmpas y pwerau yn y Bil neu'n debyg iawn iddo.

Dylid darllen y tabl ochr yn ochr â darpariaethau'r DU a'r Alban i sicrhau dealltwriaeth gyflawn o'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau. Dylwn nodi hefyd nad yw'r tabl yn cyfeirio at y pwerau hynny mewn deddfwriaeth SDLT neu LBTT nad ydynt yn cael eu hatgynhyrchu yn y Bil hwn.

Rwyf wedi penderfynu ar y weithdrefn briodol ar gyfer is-ddeddfwriaeth trwy ystyried a allai'r rheoliadau gael effaith ar atebolrwydd treth unigolyn. Pan fo'r rheoliadau'n gwneud gwahaniaeth sylweddol i swm y dreth y mae prynwyr yn gorfod ei dalu (h.y. trwy orfodi neu gynyddu swm y dreth a godir), maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol neu'r weithdrefn gadarnhaol dros dro. Mae pwerau i wneud rheoliadau ynghylch materion nad ydynt, i'r gwrthwyneb, yn effeithio yn sylweddol ar y dreth a godir ac sy'n dechnegol neu'n fecanyddol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Rydym o'r farn bod nifer y pwerau mewn deddfwriaeth SDLT yn llai gan fod Llywodraeth y DU'n tueddu i ddibynnu ar y Bil Cyllid blynyddol i wneud newidiadau i ddeddfwriaeth SDLT, a'r pŵer eang a roddir gan adran 109 o Ddeddf Cyllid 2003, sy'n galluogi Gweinidogion Trysorlys y DU i amrywio unrhyw ran o ddeddfwriaeth SDLT, ac eithrio cyfraddau a bandiau trethi.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- **Dull o benderfynu a ddylai rheoliadau a wneir o dan adran 76(1) a 76(2) fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol neu negyddol**

Gan fod cynnwys y Bil hwn yn destun gwaith craffu manwl, nid oes angen fel arfer i'r rheoliadau hyn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, gan y cânt eu cyfyngu i wneud darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, atodol, trosiannol, darfodol neu arbed sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y darpariaethau yn y Bil hwn yn gweithio'n iawn.


Er hynny, mae'n bosibl mai effaith y rheoliadau a wneir o dan yr adran hon fyddai newid atebolrwydd trethi unigolyn. Er mwyn cadw cysondeb â'r dull gweithredu ehangach ar draws y Bil, rhagnodir y weithdrefn gadarnhaol yn yr achosion hyn.

Bydd rhaid ystyried yn ofalus y cwestiwn a gaiff rheoliadau penodol yr effaith hon, ac a fyddant felly yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, fesul achos, gan gymryd i ystyriaeth diben y rheoliadau a'u heffaith gyffredinol. Am y rheswm hwn, nid oes modd rhoi rhestr gynhwysfawr o achosion lle byddai rheoliadau bob amser yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, ond rwyf wedi ymrwymo i esbonio sut y mae Gweinidogion Cymru wedi dod i'r penderfyniad hwn yn y Memorandwm Esboniadol sydd ynghlwm wrth unrhyw reoliadau a wneir o dan yr adran hon.

Rwyf yn gobeithio bod yr esboniadau hyn yn ddefnyddiol. Byddwn yn falch o ddarparu unrhyw wybodaeth bellach am y Bil a sut y bydd yn gweithredu os byddai hyn yn ddefnyddiol.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir



**Mark Drakeford AC / AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

CC: Simon Thomas AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

**Atodiad 1 – Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru)**

## Tabl 1: Pwerau is-ddeddfwriaeth yn neddfwriaeth Treth Dir y Dreth Stamp (SDLT), y Dreth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (LBTT) a’r Dreth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (LTTA)

| Disgrifiad o'r pŵer | Pŵer is-ddeddfwriaeth yn y Bil LTTA | Darpariaeth gyfatebol mewn deddfwriaeth SDLT | Darpariaeth gyfatebol mewn deddfwriaeth LBTT |
|---|---|---|---|
| **Pŵer i ychwanegu, dileu neu addasu'r rhestrau o fuddiannau esempt** | Adran 5(4)<br><br>*Gweithdrefn:* CADARNHAOL | Adran 48(5) o Ddeddf Cyllid 2003<br><br>Gweithdrefn: NEGYDDOL | Adran 5(4) o Ddeddf LBTT yr Alban 2013<br><br>Gweithdrefn: CADARNHAOL |
| **Pŵer i addasu darpariaethau cydnabyddiaeth drethadwy** | Adran 18(2)<br><br>Gweithdrefn: CADARNHAOL | Adran 50(2) o Ddeddf Cyllid 2003<br><br>Gweithdrefn: NEGYDDOL | Adran 17(2) o Ddeddf LBTT yr Alban 2013<br><br>Gweithdrefn: NEGYDDOL (ond CADARNHAOL wrth ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol) |
| **Pŵer i osod cyfraddau treth a bandiau treth** | Adran 24(1)<br><br>Gweithdrefn: Y rheoliadau cyntaf = CADARNHAOL, yr ail reoliadau a’r rheoliadau dilynol = CADARNHAOL DROS DRO | Ddim yn berthnasol (*cyfraddau treth a bandiau treth a osodwyd drwy benderfyniadau a wnaed o dan y Ddeddf Casglu Trethi Dros Dro a'r Ddeddf Cyllid flynyddol*) | Adran 24(1) o Ddeddf LBTT yr Alban 2013<br><br>Gweithdrefn: Y rheoliadau cyntaf = CADARNHAOL, yr ail reoliadau a’r rheoliadau dilynol = CADARNHAOL DROS DRO |
| **Pŵer i ychwanegu, addasu neu ddileu rhyddhadau neu addasu adran 31 (rhyddhad rheolau a dargedwyd yn erbyn osgoi trethi)** | Adran 30(6)<br><br>Gweithdrefn: CADARNHAOL | Ddim yn berthnasol (*rhyddhadau a gyflwynwyd, a ddilëwyd ac a addaswyd drwy benderfyniadau a wnaed o dan y Ddeddf Casglu Trethi Dros Dro a'r Ddeddf Cyllid flynyddol*) | Adran 27(3) o Ddeddf LBTT yr Alban 2013<br><br>Gweithdrefn: CADARNHAOL |
| **Pŵer i wneud darpariaeth bellach ynghylch cymhwyso** | Adran 33(7) | Dim pŵer cyfatebol | Dim pŵer cyfatebol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **treth trafodiadau tir i gwmnïau** | Gweithdrefn: CADARNHAOL | | |
| **Pŵer i ddarparu na ddylid trin cynlluniau penodol fel cynlluniau ymddiriedolaeth unedol at ddibenion treth trafodiadau tir** | Adran 34(6)<br><br>Gweithdrefn: NEGYDDOL | Adran 101(5) o Ddeddf Cyllid 2003<br><br>Gweithdrefn: NEGYDDOL | Adran 45(6) o Ddeddf LBTT yr Alban 2013<br><br>Gweithdrefn: NEGYDDOL |
| **Pŵer i wneud darpariaeth er mwyn sicrhau bod treth trafodiadau tir yn cael effaith mewn perthynas â chwmnïau buddsoddi penagored a thrafodiadau ymwneud â'r cwmnïau hynny** | Adran 35(1)<br><br>Gweithdrefn: CADARNHAOL | Adran 102(1) o Ddeddf Cyllid 2003<br><br>Gweithdrefn: NEGYDDOL | Adran 46(1) o Ddeddf LBTT yr Alban 2013<br><br>Gweithdrefn: NEGYDDOL |
| **Pŵer i ddiwygio'r darpariaethau ar gyfer partneriaethau** | Adran 40(2)<br><br>Gweithdrefn: CADARNHAOL | Dim pŵer cyfatebol | Adran 49(2) o Ddeddf LBTT yr Alban 2013<br><br>Gweithdrefn: CADARNHAOL |
| **Pŵer i ddiwygio'r darpariaethau ar gyfer ymddiriedolaethau** | Adran 41(2)<br><br>Gweithdrefn: CADARNHAOL | Dim pŵer cyfatebol | Adran 50(2) o Ddeddf LBTT yr Alban 2013<br><br>Gweithdrefn: CADARNHAOL |
| **Pŵer i amnewid trothwyon lle bo trafodiad yn drafodiad hysbysadwy** | Adran 45(10)<br><br>Gweithdrefn: CADARNHAOL | Dim pŵer cyfatebol | Adran 30(7) o Ddeddf LBTT yr Alban 2013<br><br>Gweithdrefn: CADARNHAOL |
| **Pŵer i ddiwygio dyddiad dechrau'r llog taliadau hwyr mewn achosion o gydnabyddiaeth ddibynnol neu heb ei chanfod** | Adran 46(5)<br><br>Gweithdrefn: CADARNHAOL | Adran 87 o Ddeddf Cyllid 2003<br><br>Gweithdrefn: NEGYDDOL | Adran 217(2) o Ddeddf Cyllid yr Alban a Phwerau Treth 2014<br><br>Gweithdrefn: NEGYDDOL |
| **Pŵer i ddiwygio dyddiad dechrau'r llog taliadau hwyr** | Adran 48(5) | Adran 87 o Ddeddf Cyllid 2003 | Adran 217(2) o Ddeddf Cyllid yr Alban a Phwerau Treth 2014 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **mewn achosion pan fo rhyddhad yn cael ei dynnu'n ôl** | Gweithdrefn: CADARNHAOL | Gweithdrefn: NEGYDDOL | Gweithdrefn: NEGYDDOL |
| **Pŵer i ddiwygio'r cyfnod pan fo rhaid dychwelyd ffurflenni treth** | Adran 51(1)<br><br>Gweithdrefn: CADARNHAOL | Adran 76(2) o Ddeddf Cyllid 2003 *(noder bod y pŵer yn ymarferadwy gan y Comisiynwyr Cyllid a Thollau ac nid y Trysorlys)*<br><br>Gweithdrefn: NEGYDDOL | Adran 39(1) o Ddeddf LBTT yr Alban 2013<br><br>Gweithdrefn: NEGYDDOL |
| **Pŵer i wneud rheoliadau ynghylch gohirio treth** | Adran 63(1)<br><br>Gweithdrefn: CADARNHAOL | Adran 90(2) o Ddeddf Cyllid 2003 *(noder bod y pŵer yn ymarferadwy gan y Comisiynwyr Cyllid a Thollau ac nid y Trysorlys)*<br><br>Gweithdrefn: NEGYDDOL | Adran 42 o Ddeddf LBTT yr Alban 2013<br><br>Gweithdrefn: NEGYDDOL |
| **Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch tystysgrifau ACC** | Adran 64(5)<br><br>Gweithdrefn: NEGYDDOL | Adran 79(4) o Ddeddf Cyllid 2003 *(noder bod y pŵer yn ymarferadwy gan y Comisiynwyr Cyllid a Thollau ac nid y Trysorlys)*<br><br>Gweithdrefn: NEGYDDOL | Dim pŵer cyfatebol |
| **Pŵer i addasu ystyr "eiddo preswyl"** | Adran 71(10)<br><br>Gweithdrefn: CADARNHAOL | Adran 116(8) o Ddeddf Cyllid 2003<br><br>Gweithdrefn: NEGYDDOL | Adran 59(9) o Ddeddf LBTT yr Alban 2013<br><br>Gweithdrefn: CADARNHAOL |
| **Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol etc.** | Adran 76(1)<br><br>Gweithdrefn: NEGYDDOL, ond | Dim pŵer annibynnol penodol, ond gweler adran 109(6) o Ddeddf Cyllid 2003 (CADARNHAOL | Adran 67(1) o Ddeddf LBTT yr Alban 2013 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | CADARNHAOL os yw'r rheoliadau yn gosod neu'n cynyddu atebolrwydd treth | DROS DRO) ac adran 114(6) o Ddeddf Cyllid 2003 | Gweithdrefn: NEGYDDOL (ond CADARNHAOL wrth ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol) |
| **Pŵer i gychwyn darpariaethau'r Bil** | Adran 79(2)<br><br>Dim gweithdrefn | Dim pŵer cyfatebol | Adran 70(2) o Ddeddf LBTT yr Alban 2013<br><br>Dim gweithdrefn |
| **Pŵer i ychwanegu, i dynnu ymaith neu i amrywio esemptiadau** | Paragraff 7, Atodlen 3<br><br>Gweithdrefn: CADARNHAOL | Paragraff 5, Atodlen 3 o Ddeddf Cyllid 2003<br><br>Gweithdrefn: NEGYDDOL | Paragraff 8, Atodlen 1 o Ddeddf LBTT yr Alban 2013<br><br>Gweithdrefn: CADARNHAOL |
| **Pŵer i godi treth ar elfen rhent lesoedd preswyl** | Paragraff 27(2), Atodlen 5<br><br>Gweithdrefn: CADARNHAOL | Dim pŵer cyfatebol | Dim pŵer cyfatebol |
| **Pŵer i bennu bandiau a chyfraddau lesoedd preswyl** | Paragraff 27(4), Atodlen 5 *(yr unig ffordd o ymarfer y pŵer yw os gwneir rheoliadau o dan baragraff 27(2), Atodlen 5)*<br><br>Gweithdrefn: Y rheoliadau cyntaf = CADARNHAOL, yr ail reoliadau a'r rheoliadau dilynol = CADARNHAOL DROS DRO | Ddim yn berthnasol (*cyfraddau treth a bandiau treth a osodwyd drwy benderfyniadau a wnaed o dan y Ddeddf Casglu Trethi Dros Dro a'r Ddeddf Cyllid flynyddol*) | Paragraff 3, Atodlen 19 o Ddeddf LBTT yr Alban 2013<br><br>Gweithdrefn: Y rheoliadau cyntaf = CADARNHAOL, yr ail reoliadau a'r rheoliadau dilynol = CADARNHAOL DROS DRO |
| **Pŵer i bennu bandiau a chyfraddau lesoedd** | Paragraff 28(1), Atodlen 5<br><br>Gweithdrefn: Y rheoliadau cyntaf = CADARNHAOL, yr ail reoliadau a'r rheoliadau dilynol = CADARNHAOL DROS DRO | Ddim yn berthnasol (*cyfraddau treth a bandiau treth a osodwyd drwy benderfyniadau a wnaed o dan y Ddeddf Casglu Trethi Dros Dro a'r Ddeddf Cyllid flynyddol*) | Paragraff 3, Atodlen 19 o Ddeddf LBTT yr Alban 2013<br><br>Gweithdrefn: Y rheoliadau cyntaf = CADARNHAOL, yr ail reoliadau a'r rheoliadau dilynol = CADARNHAOL DROS DRO |
| **Pŵer i bennu cyfradd disgownt amser arall** | Paragraff 32, Atodlen 5 | Paragraff 8, Atodlen 5 o Ddeddf Cyllid 2003 | Paragraff 7, Atodlen 19 o Ddeddf LBTT yr Alban 2013 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gweithdrefn: CADARNHAOL | Gweithdrefn: NEGYDDOL | Gweithdrefn: NEGYDDOL |
| **Pŵer i bennu swm y rhent perthnasol** | Paragraff 36(1), Atodlen 5<br><br>Gweithdrefn: CADARNHAOL | Dim pŵer cyfatebol | Dim pŵer cyfatebol |
| **Pŵer i ragnodi gwybodaeth bellach mewn cysylltiad â bondiau buddsoddi cyllid arall** | Paragraffau 8(1), 9(1), 12(b), 16 a 18(4) neu (5), Atodlen 10<br><br>Gweithdrefn: NEGYDDOL | Paragraff 1, Atodlen 61 o Ddeddf Cyllid 2009<br><br>Gweithdrefn: NEGYDDOL | Paragraff 3, Atodlen 8 o Ddeddf LBTT yr Alban 2013<br><br>Gweithdrefn: NEGYDDOL |
| **Pŵer i ragnodi isafswm canran y dreth sydd i'w phriodoli i anheddau mewn rhyddhad anheddau lluosog** | Paragraff 6(6), Atodlen 12<br><br>Gweithdrefn: NEGYDDOL | Dim pŵer cyfatebol | Paragraff 12, Atodlen 5 o Ddeddf LBTT yr Alban 2013<br><br>Gweithdrefn: NEGYDDOL |
| **Pŵer i ychwanegu at y rhestr o'r "cyrff sector cyhoeddus perthnasol" at ddibenion rhyddhad yr hawl i brynu** | Paragraff 2(3)(g), Atodlen 14<br><br>Gweithdrefn: NEGYDDOL | Paragraff 1, Atodlen 9 o Ddeddf Cyllid 2003<br><br>Dim gweithdrefn | Dim pŵer cyfatebol (*nid yw'r rhyddhad yn bodoli yn yr Alban*) |
| **Pŵer i bennu cyfran y dreth mewn rhyddhad caffael** | Paragraff 3(1), Atodlen 16<br><br>Gweithdrefn: CADARNHAOL | Dim pŵer cyfatebol | Paragraff 6, Atodlen 11 o Ddeddf LBTT yr Alban 2013<br><br>Gweithdrefn: NEGYDDOL |
| **Pŵer i bennu trafodiad penodol sy'n gymwys ar gyfer rhyddhad yn achos caffaeliadau penodol sy'n ymwneud â chyrff cyhoeddus** | Paragraff 1(2), Atodlen 19<br><br>Gweithdrefn: NEGYDDOL | Adran 66(2) o Ddeddf Cyllid 2003<br><br>Gweithdrefn: NEGYDDOL | Paragraff 2, Atodlen 16 o Ddeddf LBTT yr Alban 2013<br><br>Gweithdrefn: NEGYDDOL |
| **Pŵer i ychwanegu at restr o gyrff cyhoeddus at ddibenion rhyddhau ar gyfer caffaeliadau penodol sy'n cynnwys cyrff cyhoeddus** | Paragraff 1(4)(l), Atodlen 19<br><br>Gweithdrefn: NEGYDDOL | Adran 66(4) o Ddeddf Cyllid 2003<br><br>Gweithdrefn: NEGYDDOL | Paragraff 4, Atodlen 16 o Ddeddf LBTT yr Alban 2013<br><br>Gweithdrefn: NEGYDDOL |
| **Pŵer i ychwanegu at restr o** | Paragraff 2(d), Atodlen 19 | Dim pŵer cyfatebol | Dim pŵer cyfatebol (*nid yw'r* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **gyrff iechyd sy'n gymwys i gael rhyddhad** | Gweithdrefn: NEGYDDOL | | *rhyddhad yn bodoli yn yr Alban*) |
| **Pŵer i ychwanegu at restr o gyrff cyhoeddus at ddibenion rhyddhad ar gyfer cydymffurfio â rhwymedigaethau cynllunio** | Paragraff 2(3)(e), Atodlen 20<br><br>Gweithdrefn: NEGYDDOL | Adran 61(3) o Ddeddf Cyllid 2003<br><br>Dim gweithdrefn | Paragraff 5, Atodlen 15 o Ddeddf LBTT yr Alban 2013<br><br>Gweithdrefn: NEGYDDOL |
| **Pŵer i wneud darpariaeth am gadw neu storio cofnodion at ddibenion y Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (TCMA)** | Paragraff 7, Atodlen 22 (cyflwyno'r adran newydd 39A i TCMA)<br><br>Gweithdrefn: NEGYDDOL | Paragraff 4, Atodlen 11 o Ddeddf Cyllid 2003<br><br>Gweithdrefn: NEGYDDOL | Adran 81 o Ddeddf Cyllid yr Alban a Phwerau Treth 2014<br><br>Gweithdrefn: CADARNHAOL |

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon